U. POLISI CLUDIANT RHWNG Y CARTREF A'R YSGOL/COLEG

1. Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y polisi hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gydymffurfio â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i ddarparu gwybodaeth am ei bolisïau a'r trefniadau y mae'n eu rhoi ar waith i gludo dysgwyr rhwng y cartref a'r ysgol a rhwng y cartref a'r coleg.

Bwriad y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw darparu system gludiant ddibynadwy a fydd yn ceisio cludo disgyblion yn ddiogel, yn brydlon ac yn rhesymol o gyfforddus. Bydd yr egwyddorion hyn yn berthnasol i bob gwasanaeth a gontractir gan y Cyngor.

Ym mhob achos, y defnydd effeithiol o adnoddau fydd yn pennu pa gludiant a ddefnyddir (yn amodol ar unrhyw ofynion anghenion arbennig). Gall cludiant gael ei ddarparu trwy wasanaethau cludiant ysgol dan gontract neu trwy wasanaethau cludiant cyhoeddus presennol fel bws, bws mini, trên, tacsi, ac

2. Darparu cludiant am ddim

Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol (ALl) i ddarparu cludiant am ddim ar gyfer dysgwyr i'r ysgol addas agosaf os ydynt yn byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ysgol honno. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae'r term ysgol addas agosaf yn golygu'r ysgol ddalgylch leol a gall hon fod yn ysgol Saesneg, ysgol Gymraeg, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig a gynhelir.

Fodd bynnag, pan fydd disgyblion – o ganlyniad i ddewis y rhieni – yn mynychu ysgol ar wahân i'w hysgol dalgylch, mae'n rhaid deall mai'r rhieni fydd yn llwyr gyfrifol am gostau a threfniadau'r cludiant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio'r 'pellter cerdded' statudol fel dwy filltir i ddysgwyr oedran cynradd a thair milltir i ddysgwyr oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg uwchradd.

O fis Medi 2016 ymlaen, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi penderfynu newid ei bolisi yn unol â phellteroedd statudol Llywodraeth Cymru, sef dwy filltir i ddisgyblion oedran cynradd a thair milltir i ddisgyblion oedran ysgol statudol mewn ysgolion uwchradd. Caiff y pellteroedd eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf, mwyaf diogel, sydd ar gael rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r ALl yn defnyddio system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) bwrpasol i fesur y pellteroedd hyn a sicrhau cywirdeb.

Dyma fydd y newidiadau:

- Bydd disgyblion Ysgol Gynradd yn cael cludiant am ddim os byddant yn mynychu eu hysgol dalgylch ac yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol;
-

Bydd disgyblion Ysgol Uwchradd (gan gynnwys disgyblion ôl-16) yn cael cludiant am ddim os byddant yn mynychu eu hysgol dalgylch ac yn byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol.

- Bydd disgyblion dros 16 oed sy'n byw 3 milltir neu fwy o Goleg Penybont hefyd yn cael cludiant am ddim, gyda thocyn gwasanaeth cludiant cyhoeddus.

Pan ddaw'r polisi i rym ym mis Medi 2016, bydd disgyblion nad ydynt yn cyrraedd y trothwy newydd ar gyfer cael cludiant am ddim, ac a oedd yn cael cludiant am ddim cyn Medi 2016, yn cadw'u hawl i gael cludiant am ddim nes y byddant yn symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg neu'n gadael yr ysgol.

Bydd disgyblion sy'n dechrau mewn ysgol gynradd neu ysgol uwchradd ym mis Medi 2016 nad ydynt yn cyrraedd y trothwy newydd ar gyfer cael cludiant am ddim, ond sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol honno sy'n derbyn cludiant am ddim, hefyd yn cael cludiant am ddim nes y byddant yn symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg neu'n gadael yr ysgol honno.

Gallai disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim brynu sedd ar fws ysgol (os oes seddau sbâr ar gael), a bydd cost y sedd hon yn codi i £1.90 y diwrnod (£361 y flwyddyn) o fis Medi 2016 ymlaen.

Bydd cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei drefnu i gyd-fynd â dechrau a diwedd diwrnod ysgol arferol ac yn cael ei ddarparu yn ystod tymor yr ysgol. Ni ddarperir unrhyw gludiant ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol nac ysgolion haf.

3. Dysgwyr o oedran meithrin

Nid oes gan ALl unrhyw rwymedigaeth statudol i ddarparu cludiant ar gyfer dysgwyr oedran meithrin. Fodd bynnag, mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi dewis defnyddio'i bwerau disgresiwn i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr oedran meithrin, yn unol â meini prawf pellter y Cyngor o 1.5 milltir. Felly, byddai dysgwyr oedran meithrin yn teithio yn yr un cerbyd dan gontract â'r dysgwyr hynny o oedran ysgol statudol. Pan eu bod yn mynychu'n llawn amser (Meithrin Dau), byddant yn teithio i'r ysgol ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac yn dod adref ar ddiwedd sesiwn y prynhawn. Fodd bynnag, lle cynigir lleoedd rhan-amser i ddysgwyr 3 oed mewn ysgolion (Meithrin Un), cyfrifoldeb y rhieni fydd naill ai casglu eu plant ar ddiwedd sesiwn y bore neu sicrhau bod eu plant yn cael eu cludo i'r ysgol ar gyfer sesiwn y prynhawn, yn dibynnu ar eu horiau mynychu.

4. Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae'r un meini prawf o ran oedran a phellter yn berthnasol i blant sy'n 'derbyn gofal' gan yr ALl ac i blant nad ydynt yn derbyn gofal. Fodd bynnag, os bydd yr ALl yn penderfynu y dylai plentyn fynychu ysgol arall yn hytrach na'i ysgol ddalgylch yna

bydd cludiant i ac o'r ysgol honno'n cael ei ddarparu.

5. Trefniadau arbennig – llwybrau peryglus

Ystyrir bod llwybr ar gael os yw'n ddiogel (cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol) i ddysgwr heb anabledd nac anhawster dysgu gerdded y llwybr ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn os yw oedran a lefelau dealltwriaeth y dysgwr yn gofyn am hyn.

Wrth bennu diogelwch cymharol unrhyw lwybr cerdded, mae'r ALl yn cynnal asesiadau o'r peryglon y gallai plant eu hwynebu ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol.

Bydd pob asesiad yn dilyn y Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol, Mehefin 2014. Wrth i lwybrau cael eu hadolygu, gallai'r ddarpariaeth gael ei thynnu'n ôl, er enghraifft os nodwyd peryglon a fyddai'n gofyn am hynny. Bydd hwn wedyn yn cael ei ystyried fel llwybr cerdded diogel sydd wedi'i nodi ac sydd ar gael. Bydd rhieni'n cael o leiaf un tymor o rybudd cyn i'r cludiant gael ei dynnu'n ôl, a threfnir i dynnu unrhyw gludiant yn ôl fel arfer i gyd-fynd â dechrau blwyddyn academaidd.

6. Cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg

Mae dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf yn derbyn cludiant am ddim yn unol â pholisi cytunedig yr ALl ar bellter cerdded a llwybrau diogel (gweler paragraffau 2 a 5).

7. Cludiant i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

Mae dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf o blith y rhai sydd o'r un enwad â'u rhieni'n derbyn cludiant am ddim yn unol â pholisi cytunedig yr ALl ar bellter cerdded a llwybrau diogel (gweler paragraffau 2 a 5).

8. Dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig/Anableddau

Darperir cludiant am ddim i bob dysgwr sy'n mynychu ysgolion arbennig, unedau atgyfeirio disgyblion a chanolfannau adnoddau dysgu nad ydynt wedi'u lleoli yn eu hysgolion dalgylch, yn unol â pholisi cytunedig yr ALl ar bellteroedd cerdded.

Fe allai dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd, ac nad ydynt yn gymwys fel arall i gael cludiant am ddim, fod yn gymwys i gael cludiant am ddim os caiff eu cais ei ategu gan dystiolaeth briodol a gadarnhawyd gan Wasanaeth Cynhwysiant yr ALl.

Gall fod gan ddysgwyr ag anableddau (yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb

2010) hawl i gymorth gyda chludiant o’r cartref i ysgol/coleg priodol er nad yw’r trefniant yn cwrdd â meini prawf yr ALl ar bellterau cerdded diogel. Mae darpariaeth o’r fath yn amodol ar gymeradwyaeth gan Wasanaeth Cynhwysiant yr ALl. Mae’n rhaid i unrhyw atgyfeiriadau o’r fath gael eu hategu â thystiolaeth briodol.

Anghenion y dysgwr fydd yn pennu’r dull cludiant a ddarperir.

9. Trefniadau ar draws ffiniau

Gellir darparu cludiant ar gyfer dysgwyr cymwys sy’n mynychu ysgolion mewn awdurdodau lleol cyfagos, lle mae mynychu ysgolion o’r fath yn gyson â pholisi derbyn yr ALl e.e. Ysgol Gyfun Tonyrefail i ddysgwyr sy’n byw yn Evanstown ac Ysgol Gynradd y Dolau (uned Gymraeg) i ddysgwyr sy’n byw ym Mhen-coed.

10. Ysgolion lle ceir goralw

Os na ellir derbyn dysgwr i’w ysgol dalgylch ac, o ganlyniad i hyn, ei fod yn gorfod mynychu ysgol arall sy’n fwy na'r pellter cerdded o’i gartref, darperir cludiant i’r ysgol addas agosaf yn unig. Mae’n bosibl na fydd hyn yn cyd-fynd â dewis ysgol y rhiant/gofalwr, ac mewn amgylchiadau o’r fath bydd y rhiant/gofalwr yn gyfrifol am gostau a threfniadau’r cludiant.

11. Cludiant am resymau meddygol

Gellir darparu cludiant i ac o’r ysgol am gyfnodau byr ar argymhelliad Swyddog Iechyd/Meddygol priodol a bydd yn amodol ar gadarnhad gan yr ALl. Lle cytunir arni bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hadolygu’n rheolaidd.

12. Trefniadau arbennig – taliadau i rieni/gofalwyr

Gall y Cyngor gytuno dan amgylchiadau arbennig bod rhiant/gofalwr yn cludo plentyn i’r ysgol ac o’r ysgol ac yna’n cael ad-daliad i gwrdd â chostau tanwydd. Caiff achosion o’r fath eu hystyried yn unigol.

13. Trefniadau arbennig – ceisiadau i ddefnyddio disgresiwn yr ALl

Hysbysir rhieni/gofalwyr, os ydynt yn ystyried bod amgylchiadau arbennig, y gallant gyflwyno cais i’r Cyngor gan ofyn iddo ystyried defnyddio ei ddisgresiwn i roi cymorth i ddarparu cludiant ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gymwys fel arall ar gyfer cludiant am ddim.

Caiff pob cais ei ystyried yn ôl ei rinweddau. Nid yw’r Cyngor yn cynnal rhestr o amgylchiadau sy’n arwain at ddarparu cludiant yn ôl disgresiwn; fodd bynnag, i

gynorthwyo rhieni/gofalwyr, dyma enghreifftiau o amgylchiadau o'r fath:

- pan fo'r dysgwr wedi gorfod newid cyfeiriad, er mwyn symud i ran wahanol o'r fwrdeistref sirol i ffoi rhag sefyllfa o drais domestig;
- sefyllfaoedd o argyfwng byrdymor sy'n golygu bod angen i'r dysgwyr symud i ardal wahanol yn y Fwrdeistref;
- lle mae gan ddysgwr gyflwr meddygol sy'n golygu bod angen trefnu cludiant yn y byrdymor (e.e. wedi torri ei g/choes).

Dylai rhieni gysylltu â'r Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr (rhif ffôn 01656 642650 i gael mwy o gyngor ynghylch sut i wneud cais.

14. Cynllun lleoedd am dâl

O bryd i'w gilydd mae'n bosib y bydd y niferoedd a gaiff eu cario gan yr ALl yn is na nifer y lleoedd yn y cerbyd a ddefnyddir. Mewn achosion o'r fath bydd yr ALl yn trefnu bod y lleoedd dros ben ar gael i blant sy'n byw'n agosach na'r terfyn pellter a nodir ym mharagraff 2. Darperir lleoedd am dâl ar sail flynyddol ac mae'n rhaid deall nad yw darparu'r cyfleuster hwn yn rhywbeth y mae'r ALl dan orfodaeth i'w wneud ac, o gofio bod y ddarpariaeth yn gwbl ddibynnol ar y lle sydd yn y cerbyd a ddefnyddir, gellir tynnu'r cyfleuster yn ôl yn gymharol fyr rybudd.

Mae'r ALl hefyd yn cadw'r hawl i dynnu lle wedi'i dalu yn ôl mewn achosion lle mae'r rhiant/gofalwr yn gwrthod talu'r gost; yn ogystal â hyn, bydd yr ALl yn ystyried hanes talu blaenorol y rhiant/gofalwr wrth ystyried cais newydd. Pan fo rhiant/gofalwr wedi gwrthod neu fethu â thalu mewn blynyddoedd blaenorol, gallai hyn arwain at wrthod y cais newydd.

Cynghorir rhieni/gofalwyr i gysylltu â'r Uned Cydlynu Cludiant (rhif ffôn 01656 642653) ynghylch lleoedd am dâl.

15. Trosglwyddo i ysgol arall – trefniadau cludiant

Ni fydd disgyblion y mae eu teuluoedd yn symud i gyfeiriad y tu allan i ddalgylch yr ysgol a fynychir yn parhau i gael cludiant am ddim i'r ysgol os yw'r symud hwnnw'n digwydd yn ystod addysg gynradd, neu ym mlynyddoedd saith, wyth neu naw yn ystod addysg uwchradd.

Caiff ceisiadau ar ran disgyblion sy'n symud ym mlynyddoedd 10, 11, 12 neu 13 eu hystyried yn unigol ac, os cânt eu cymeradwyo, caiff pàs bws ei ddarparu fel arfer.

16. Monitro a'r drefn gwynion

Bydd pob cerbyd ar gael ar gyfer archwiliadau ar hap gan y comisiynwyr traffig neu gorff priodol arall, pan fo hynny'n ofynnol. Eir ati ar unwaith i ymchwilio i unrhyw gwynion y bydd yr ALl yn eu derbyn oddi wrth rieni am wasanaethau neu gerbydau.

Os caiff y gŵyn ei chadarnhau, bydd y camau angenrheidiol a phriodol yn cael eu cymryd yn unol â'r contract fel mater o flaenoriaeth. Dylai rhieni gysylltu â'r Uned Cydlynu Cludiant. (Rhif ffôn 01656 642654) schooltransport@bridgend.gov.uk.

Bydd yr ALl, ar ddiwrnodau amhenodol, yn cynnal archwiliadau o gontractau, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r contractau.

17. Cludiant o'r cartref i'r coleg

Gall yr holl fyfyrwyr sy'n 16, 17 neu'n 18 mlwydd oed ar Fedi'r 1af ac sy'n mynychu'u cwrs cyntaf o astudiaeth lawn-amser mewn coleg addysg bellach yn y flwyddyn academaidd honno, fod â hawl i gludiant am ddim ar yr amod eu bod:

- byw yn bellach na'r maen prawf pellter o dair milltir;
- yn mynychu'r coleg agosaf at eu cartref sy'n darparu'r cwrs.

Y dull cludiant arferol ar gyfer myfyrwyr coleg yw bws/trên.

18. Y Cod Ymddygiad Teithio: Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Fel rhan o'r mesur uchod mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r "Cod Ymddygiad Teithio" i hybu teithio diogel ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, trwy nodi'r safonau ymddygiad a fydd yn ofynnol ar gyfer yr holl ddysgwyr wrth deithio rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae'r Cod, sydd wedi cael ei roi i bob dysgwr, yn annog ysgolion ac awdurdodau lleol i weithio mewn modd rhagweithiol gyda dysgwyr, eu rhieni a'r gymuned i hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r Cod hefyd yn caniatáu i'r ALl atal cludiant dros dro dan amgylchiadau lle mae dysgwr wedi camymddwyn wrth deithio i'r ysgol/coleg.

Bydd yr ALl yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y Cod os yw'n ystyried atal cludiant.

Mae elfennau disgresiwn polisi'r Cyngor dan adolygiad, a gallent gael eu hatal yn llwyr. Gwneir unrhyw newidiadau arfaethedig mewn ymgynghoriad â dysgwyr a rhieni ac, os cytunir arnynt, byddant fel arfer yn dod i rym ar ddechrau blwyddyn ysgol ac yn cymryd i ystyriaeth y Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol – Mehefin 2014.